

CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 34
16/11/20

Mab y swyddog

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansio a chael hwyl!



Paratowyd y pecyn hwn gan:

Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, Morgan Bryn,
Bryn & Tracey Roberts, Connor Roberts, Shirley & Terry Rees, Greg Leavers, Andy Leavers,
Anna Kasha a Gwyn Rhydderch

An English
version
is also
available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddsbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygyuned.org

Stori



Fersiwn Beibl.net

Roedd Iesu wedi bod yn dweud fod dim parch at broffwyd yn yr ardal lle cafodd ei fagu. Ond pan gyrhaeddodd Galilea cafodd groeso brwd gan y bobl oedd wedi bod yn Jerwsalem dros Wyl y Pasg a gweld y cwbl roedd e wedi'i wneud yno.

Aeth yn ôl i bentref Cana, lle roedd wedi troi'r dŵr yn win.

Clywodd un o swyddogion llywodraeth Herod yn Capernaum fod Iesu wedi dod yn ôl o Jwdea i Galilea. Roedd mab y dyn mor sâl roedd ar fin marw, felly aeth i Cana i chwilio am Iesu ac ymbil arno i fynd i lawr i iacháu ei fab. Dwedodd Iesu, "Heb gael gweld arwyddion a gwyrthiau rhyfeddol wnewch chi bobl byth gredu!"



"Ond syr," meddai'r swyddog wrtho, "tyrd gyda mi cyn i'm plentyn bach i farw."

"Dos di," meddai Iesu wrtho, "mae dy fab yn mynd i fyw." Dyma'r dyn yn credu beth ddwedodd Iesu, a mynd. Tra oedd ar ei ffordd adre, daeth ei weision i'w gyfarfod gyda'r newyddion fod y bachgen yn mynd i fyw. Gofynnodd iddyn nhw pryd yn union wnaeth e ddechrau gwella, a dyma nhw'n ateb, "Diflannodd y

gwres tua un o'r gloch p'nawn ddoe." Sylweddolodd y tad mai dyna'n union pryd ddwedodd Iesu wrtho, "mae dy fab yn mynd i fyw." Felly daeth y dyn a phawb yn ei dŷ i gredu yn Iesu. Hon oedd yr ail wyrth wnaeth Iesu yn Galilea fel arwydd o pwy oedd. Gwnaeth y wyrth ar ôl dod yn ôl o Jwdea i Galilea.

Ioan 4:44-54 Beibl.net

Fersiwn syml

Un tro pan oedd Iesu yng Nghana, Galilea daeth un o swyddogion Herod ato. Roedd mab y swyddog yn sâl iawn a bron â marw a gofynnodd yn daer i Iesu am iacháu'r bachgen. Roedd gan y dyn ffydd mawr y gallai Iesu wella ei fab. "Tyrd i'm cartref i," meddai'r swyddog ond atebodd Iesu, "Dos di nawr. Mi fydd dy fab yn byw fel yr wyt ti wedi credu." Roedd hi'n un o'r gloch pan ddywedodd Iesu hyn. Aeth y swyddog adref. Daeth ei weision i'w gyfarfod a dweud fod y bachgen wedi gwella a hynny am un o'r gloch. Roedd y swyddog a'i deulu mor ddiolchgar ac yn rhyfeddu a daethant i gyd i gredu yn Iesu.



Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:


1. At bwy fuaset ti'n mynd os y buaset ti'n sâl iawn?
2. Pam wyt ti'n meddwl fod y swyddog wedi mynd i chwilio am Iesu?
3. Wyt ti'n meddwl fod y swyddog yn credu Iesu pan ddywedodd fod ei fab yn mynd i fyw?
4. Beth wyt ti'n ddysgu am Iesu o'r hanes hwn?




Mab sâl y swyddog

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (cyf. Susan Williams)


Lluniau: Richard Gunther




Pan ddaeth tad pryderus at Iesu a gofyn iddo ddod i'w gartref i iacháu ei fab oedd yn sâl, yr eiliad honno fe wnaeth y bachgen wella.



Roedd yna dyn pwysig ac roedd ei fab yn ofnadwy o sâl. Clywodd y dyn hwn fod Iesu yn y pentref cyfagos ac aeth i ofyn iddo ddod i'w gartref i wella ei fachgen.



"Iesu, mae fy mab yn sâl ofnadwy. Tyrd i'm cartref a gwna wrth. Os ydych chi'n weld mi fedri di wella fy mab, cyn y bydd yn rhy hwyr," wylodd y dyn.



"Dos adre, fe fydd dy fab yn well. Dydw i ddim angen dod i dy dŷ. Yn unig creda yn yr hyn rydw i'n ei ddweud wrthyd ti." Un o'r gloch y prynhawn oedd hi pan ddywedodd Iesu hyn.




Rhuthrodd y dyn adref. Roedd o'n credu'n wirioneddol fod Iesu wedi gwella ei fab a bod yr hyn roedd Iesu wedi ei ddweud wrtho'n wir.



Pan gyrhaeddodd ei gartref gwelodd ei fab yn sefyll wrth y drws! Doedd o ddim yn sâl bellach. Roedd y dyn mor hapus i weld ei fab.



"Faint o'r gloch wnest ti deimlo'n well?" gofynnodd y tad i'w fab. "Roedd hi'n un o'r gloch pan yn sydyn fe deimlais i'n iawn. Wnes i godi o fy ngwely ac mi oeddwn i'n teimlo'n holliachi!" atebodd y bachgen.



Roedd y dyn mor llawen. Credodd yn Iesu â'i holl galon a dywedodd wrth bawb fel roedd Iesu wedi gwella ei fab heb hyd yn oed dod i mewn i'w gartref i weld y bachgen.

Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti dy fod yn gwybod popeth amdana i.
Ti'n gwybod am bob rhan o fy nghorff a sut mae'n gweithio.
Plîs helpa'r doctoriaid a'r nyrsys sy'n gweithio'n galed i wella pobl sâl.
Diolch i Ti amdany'n nhw. Amen



Sialensau

Cerdyn diolch

Beth am wneud cerdyn i ddiolch i ddoctoriaid a nyrsys a holl weithwyr yr NHS. Gyrra fo at dy ysbyty neu dy feddygfa leol.



Cerdded ar wyau

Wyt ti'n ddigon dewr i sefyll ar wyau? Byddi angen bocs o wyau. Tynna dy esgidiau a dy sanau ac yna saf yn ofalus ar yr wyau. Cofia dynnu llun!

Pwy wyt ti'n ei gredu?

Yn y stori heddiw, dywedodd Iesu wrth y swyddog y byddai ei fab yn well. Wnaeth o gredu yn Iesu ac fe gafodd y bachgen ei iacháu!


Mae llawer o wahanol bobl yn dweud pethau wrthym bob dydd. Rydym yn credu rhai ond yn llai sicr a allwn ymddiried yn eraill. Pwy wyt ti'n ei gredu a pham?



Posau


Faint o'r gloch ydy hi?

Fedri di dynnu llinellau i gysylltu'r amseroedd sydd yr un peth?
Faint o'r gloch wnaeth Iesu iacháu mab y swyddog?




11.10

Un o'r gloch




Naw o'r gloch

07.45



13.00




Chwech o'r gloch

Tri o'r gloch

Chwarter i wyth

Deg munud wedi unarddeg

03.00



Llenwch y bylchau

Fedri di weld pa lun sy'n mynd i ba fwlch?
Ysgrifenna'r rhif wrth ymyl pob llun.



Datrys y cod

Defnyddia'r allwedd i ddatrys y cod a dod o hyd i'r adnod.

"⌚⌚s ⌚i," m⌚dd⌚i l⌚s⌚ ⌚rth⌚, "m⌚⌚⌚ ⌚⌚⌚

f⌚b ⌚n m⌚nd i f⌚⌚." ⌚⌚m⌚'r ⌚⌚n ⌚n

cr⌚⌚⌚ b⌚th dd⌚⌚⌚⌚dd l⌚s⌚, ⌚ m⌚nd.

l⌚⌚n 4:50

a =	⌚
o =	⌚
w =	⌚
e =	⌚
y =	⌚
d =	⌚
u =	⌚

Gweddi Greadigol

Bwrdd gweddi

Yn yr hanes am Iesu, mae mab y swyddog yn cael ei iacháu heb i Iesu hyd yn oed fynd i'w weld! Roedd y dyn yn credu y buasai Iesu yn ei iachau.

Rydyn ni'n cael siarad gyda Duw, gweddïo, am unrhyw beth, unrhyw amser yn unrhyw le. Gallwn ddweud "Diolch", neu "Sori" neu "Plîs".


Bydd angen:

- Darn mawr o gerdyn neu bapur tew
- Pinnau ffelt
- 3 amlen fach
- Glud
- Darnau o bapur

Beth i'w wneud:

- Ysgrifenna 'Bwrdd Gweddi' mewn llythrennau mawr ar ben y cerdyn
- Ysgrifenna geiriau'r adnod o dan hyn os wyt ti eisiau.
- Tynna lun croes goch ar bob amlen.
- Ysgrifenna "Diolch" ar un amlen, "Sori" ar yr ail a "Plîs" ar y drydedd.
- Gluda'r amlenni ar y cerdyn mawr.

1. Meddylia am rywbeth rwyt ti eisiau diolch i Dduw amdano. Ysgrifenna neu tynna lun ohono ar ddarn o bapur a'i roi yn yr amlen "Diolch".
2. Meddylia am rywbeth rwyt ti eisiau dweud "Sori" wrth Dduw amdano. Ysgrifenna neu tynna lun ohono ar ddarn o bapur a'i roi yn yr amlen "Sori".
3. Meddylia am rywbeth rwyt ti eisiau gofyn i Dduw amdano. Ysgrifenna neu tynna lun ohono ar ddarn o bapur a'i roi yn yr amlen "Plîs".




Fideo o'r stori

<https://www.youtube.com/watch?v=nzpnqcdcCuA>

Fideo o gân yr wythnos

<https://youtu.be/EnM92N3bdwc>



Cartwân o'r stori (Saesneg)

https://www.youtube.com/watch?v=_z6fBRsPKRQ



Dolenni

Chwilair

A	G	O	S	A	L	M	U	A	CH	A	I
N	W	R	A	M	I	N	A	E	R	D	B
C	R	E	D	U	C	E	D	B	I	R	G
H	E	R	O	D	G	A	L	I	L	E	A
P	S	E	F	N	W	G	N	D	I	G	LL
A	E	D	R	W	E	O	O	A	R	B	E
W	Y	P	A	DD	I	W	I	DD	R	A	W
B	A	N	F	DD	S	G	DD	W	Y	B	G
G	M	A	Y	R	I	L	Y	W	P	W	U
R	S	W	C	O	O	G	W	Y	R	TH	S
A	E	N	D	FF	N	A	R	T	Y	W	E
N	R	D	N	E	G	CH	A	B	D	U	I

ADRE
AMSER
ARWYDDION
BACHGEN
BYW
CANA
CREDU
CYFARFOD
FFORDD
GALILEA
GWEISION
GWELLA
GWRES

GWYRTH
HEROD
IACHAU
IESU
MAB
MARW
NEWYDDION
PAWB
PNAWN
PRYD
SAL
SWYDDOG

Gemau

Faint o'r gloch ydy hi, Mr. Blaidd?

Mae'r ymadrodd hwn yn cynrychioli'r amser pan siarodd Iesu eiriau o iachâd dros y bachgen ac fe wnaeth o wella.

Byddi angen:

- Unigolion
- Bag yn cynnwys y rhifau o 1 – 12

Sut i Chwarae:

- Mae Chwaraewr 1 yn sefyll un pen i'r ystafell neu'r ardd ac mae gweddill y chwaraewyr yn sefyll yn y pen arall.
- Mae'r bag o rifau gan Chwaraewr 1 ac mae'n troi ei gefn ar weddill y chwaraewyr.
- Yn y pen arall mae'r chwaraewyr yn gofyn i Chwaraewr 1, "Faint o'r gloch ydy hi, Mr. Blaidd?"
- Mae Chwaraewr 1 yn dewis rhif o'r bag ac yn dweud, " Mae'n (y rhif ddaeth o'r bag) o'r gloch."
- Mae'r chwaraewyr eraill yn symud y nifer o gamau sydd wedi cael eu galw gan Chwaraewr 1.
- Mae rhan 3,4,5 o'r gêm yn cael eu hailadrodd hyd nes mae Chwaraewr 1 yn gweiddi, "Amser swper!", troi i wynebu pawb a rhedeg ar eu holau nes mae'n dal un ohonynt.
- Os ydy Chwaraewr 1 yn tynnu'r rhif 1 allan o'r bag gellid rhoi gwobr bonws iddo neu fe allai droi rownd a dal rhywun heb alw allan yr amser yn gyntaf.



Snap!

Rydyn ni gyd yn gwybod sut i chwarae'r gêm 'Snap.' Er mwyn chwarae'r fersiwn hon, tynna allan y cardiau lliw (J, Q, K). Chwaraewch fel rydych chi'n chwarae fel arfer ond pan fydd chwaraewr yn rhoi cerdyn i lawr mae'n rhaid iddo ddweud y rhif ac yna'r geiriau "o'r gloch." Mae'n rhaid i'r chwaraewr sy'n cael dau gerdyn yr un rhif ddweud y rhif o'r gloch cyn galw allan "Snap!"

Rysáit

Cloc pítsa



Cynhwysion:

- Gwaelod pítsa parod (neu un â chaws a thomato arno) neu fara pitta, rôl neu waelod pítsa ar gyfer y teulu.
- Saws tomato
- Caws
- Pupur melys neu lysiau tebyg ar gyfer dolenni'r cloc
- Llysiau (Madarch) wedi eu malu'n fân ar gyfer gwneud y rhifau

Dull:

- Cynhesa'r popty i wres o 200 gradd canradd, nwy 6.
- Rho'r pítsa neu waelod pítsa ar hambwrdd pobi.
- Taena'r saws tomato dros y gwaelod pítsa ac yna ychwanega'r caws.
- Torra'r rhifau o 1 – 12 allan o fadarch a gosoda nhw o gwmpas wyneb y cloc.
- Torra'r pupur yn stribedi a'u gosod ar y pítsa neu waelod pítsa i ddangos 1.00 o'r gloch, yr amser pan wnaeth lesu iacháu'r plentyn.
- Cogia yng nghanol y popty am 6 i 12 munud.



Wrth y môr yng Ngalilea, teulu o bysgotwyr lleol,
dyma ein gwaith;
Trwsio a glanhau ein
Cychod a'n rhwydau am oriau maith;
Yna daeth pregethwr, yn athro a storiwr,
A mewn i'r cwch â fo -
'Ewch i'r dŵr agored fel bod pawb yn gallu clywed,'
A dyna ddwedodd o:


Dechrau'r daith! Gad dy waith!

Meddai lesu: 'Dilyn fi',

Cychwyn glân, calon lân, meddai Ef, 'Crêd ynof fi',

*Cawn ni sgwrs ar ein cwrs,
meddai lesu, 'Byddi'n rhydd',
Dilyn fi, tyrd dilyn fi.'*

lesu y pregethwr yr athro a'r storiwr, dyna pwy oedd,
Pan orffennodd siarad, meddai
'Hwylwch i le dyfnach, a gollwng eich rhwyd.'
'Nid ydym wedi dal dim byd
Er i ni 'sgota'r nos i gyd,
Ond os ti'n dweud, mi wnawn,'
A dyna'r pysgod mwya' eu rhif,
ac ar ein gliniau syrthion ni, a
Chlywed lesu'n iawn:



Gwahoddiad lesu Grist i ni, yr un peth yw,
heb newid dim, i ni i gyd,
Mae'i gariad atom ni yn awr yn ddyfnach na'r holl
foroedd mawr, mae'n wir o hyd;
Os down yn ffrindiau iddo Ef
cawn fywyd gyda fo'n y nef,
Mae gyda ni bob dydd;
Un cam o ffydd a ffindio wnawn
mae bywyd ar ei orau cawn
Gwrandwch pawb yn rhydd:

— *Dechrau'r daith...*

*Dwêd wrth bawb, wrth dy frawd,
Meddai lesu, dilyn fi,
Wrth dy chwaer, dwêd y gair,
Meddai Ef, crêd ynof fi,
Gobaith sydd, bywyd rhydd,
Meddai lesu Grist i ti,
Dilyn fi, tyrd dilyn fi, tyrd dilyn fi.'*

Hawlfraint 2014 Greg Leavers Cyf. Cass Meurig

Gwylwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar <https://youtu.be/EnM92N3bdwc>

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

